Gwyddoniaeth
2 i 5

# Lindys Cuddliw



## Trosolwg

Mae'r gêm brysur yma'n datblygu dealltwriaeth o guddliw ac addasu yn y byd naturiol. Mae hefyd yn annog cyfrif a mathemateg drwy chwarae yn yr awyr agored.

## Offer

- Gwlân o wahanol hyd a lliw gan gynnwys gwyrdd
- Gofod agored amrywiol

## Gweithgaredd

1. Rhannwch y plant yn ddau grŵp cyfartal.
2. Gadewch i bawb gymryd rhai 'lindys' neu 'bryfed genwair' (cysylltu â chyfrif/lluosi)
3. Mewn dau grŵp, cuddiwch edefynnau mewn rhannau gwahanol o'r gofod.
4. Pan fydd yr holl bryfed genwair wedi'u cuddio, eglurwch fod y grwpiau bellach yn adar llwglyd.
5. Mae'r ddau grŵp yn cyfnewid ardaloedd ac yn dod o hyd i edefynnau'r grŵp arall.

## Gwirio am ddealltwriaeth

1. Pa liwiau oedd y rhai anoddaf / hawsaf i ddod o hyd iddyn nhw? Pam ydych chi'n meddwl oedd hynny?
2. Pa liwiau ydych chi'n meddwl y byddai anifeiliaid bach yn addasu i fod a pham?
3. Siaradwch am gadwyni bwyd o amgylch y gweithgaredd yma (coeden – lindysyn – titw tomos las – gwalch glas)

## Canlyniadau posibl i ddangos dysgu

| | |
|---|---|
| **Mathau o Chwarae** | Chwarae Cymdeithasol – cydweithio mewn grwpiau |
| | Archwiliadol – gwneud cysylltiadau am y byd o'u cwmpas |
| **Sgiliau Motor** | Datblygu sgiliau motor manwl drwy gasglu edefynnau gwlân o wahanol faint |
| **LLythrennedd a Mathemateg** | Cysylltu â mathemateg drwy gyfrif y lindys a faint sy'n weddill i'w darganfod |
| | Archwilio llyfrau stori fel y lindysyn llwglyd iawn / ten wriggly wiggly caterpillars |
| **Dysgu hunangyfarwyddo** | Gadael i'r plant archwilio gwahanol liwiau a chyfateb eitemau naturiol eraill ag edefynnau gwlân |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: **ltl.org.uk/outdoor-learning-training**

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890